**Cyfarfod Fforwm Hil Cymru**
**22 Mehefin 2017 am 12.00pm - 13.00pm**
**Tŷ Hywel, Bae Caerdydd**

**Yn Bresennol:**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**

| | |
|---|---|
| Aled Edwards | Cynrychiolydd o'r Fforwm Cymunedau Ffydd |
| Shahien Taj | Sefydliad Henna |
| Isaac Blake | Cwmni Celfyddyd a Diwylliant Romani |
| Rocio Cifuentes | Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) |
| David Phillips | Grŵp Cydraddoldeb Cymru |
| Maria Mesa | Women Connect First |
| Tracy Sherlock | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| Shereen Williams | Cydlynydd Rhanbarthol Cydlyniant Cymunedol, Dwyrain Gwent |
| Samsunear Ali | BAWSO |

**Swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Paul Dear | Tîm Cydraddoldeb |
| Emma Small | Tîm Cydraddoldeb |
| Andrea Adams | Tîm Cydraddoldeb |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Mandy Burrows | Cydlynydd Rhanbarthol Cydlyniant Cymunedol, Gogledd Ddwyrain |
| Daniel Hurford | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Uzo Iwobi | Cyngor Hil Cymru |
| Sunil Patel | Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth |
| Melineh Essavy | Hope2Shine |

***Cyflwyniadau:***
Matthew Williams Athro Troseddeg ym Mhrifysgol Caerdydd
Rocio Cifuentes EYST
Ginger Wiegard EYST

**Gair o Groeso a Chyflwyniadau**
Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet bawb i'r cyfarfod. Cofnododd Ysgrifennydd y Cabinet ymddiheuriadau hwyr gan Uzo Iwobi ac Aliya Mohammer.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r papur sy'n cynnwys y camau gweithredu yn gywir.

**Eitem 1: Y diweddaraf gan Uzo Iwobi ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector**
Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf am nad oedd Uzo Iwobi yn y cyfarfod.

**Eitem 2: Cyflwyniad ar Atal Troseddu**
Matthew Williams, Athro Troseddeg ym Mhrifysgol Caerdydd

***Data ar Droseddau Casineb (Sleidiau yn atodedig)***

Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) yn amcangyfrif rhwng 2012/13 a 2014/15 bod 222,000 o droseddau casineb wedi'u cyflawni y flwyddyn yng Nghymru a Lloegr. Roedd 3% o'r holl droseddau a gyflawnwyd yn droseddau casineb, 8% yn droseddau treisgar a 3% yn ddifrod troseddol. Ers 2011/12 a 2012/13 amcangyfrifir bod nifer y troseddau casineb a gyflawnwyd wedi gostwng 56,000 y flwyddyn (28%). Mae hyn yn unol â gostyngiad yn yr holl droseddau a gyflawnwyd (25%) yng Nghymru a Lloegr. I'r gwrthwyneb, mae nifer y troseddau casineb a gofnodwyd gan yr heddlu yn parhau i gynyddu o ganlyniad i gynnydd yn y cyfraddau adrodd a gwell arferion cofnodi.

Caiff Labordy Gwyddoniaeth Data Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd ei ariannu gan Lywodraeth y DU i ymchwilio i ledaeniad troseddau casineb, gan ddadansoddi'r cyfryngau cymdeithasol yn benodol. Dengys data'r Labordy hwn gynnydd clir yn nifer y cofnodion o droseddau casineb yn dilyn 23 Mehefin - diwrnod y refferendwm ac wedi hynny yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol yn Ewrop. Yn 2016/17 dengys y data gynnydd sydyn yn nifer y troseddau casineb y rhoddwyd gwybod amdanynt mewn perthynas â throseddau a waethygir gan hil neu grefydd ac unwaith eto ar gyfer y cynnydd mewn 'casineb' ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys sylwadau gwrth-Fwslimaidd a gwrth-Semitaidd ar Twitter yn ystod y Refferendwm.

Gall digwyddiadau penodol sbarduno troseddau casineb ond nid dyma'r gwir i gyd. Er enghraifft, mae ffactorau economaidd a all gyfrannu hefyd at unrhyw gynnydd. Un ddamcaniaeth yw bod troseddau casineb yn fwy tebygol o ddigwydd yn ystod cyfnodau o brinder, gan fod grwpiau nad ydynt yn perthyn i'r norm ('out-groups') yn cael eu hystyried yn fygythiad i adnoddau. Bydd y don nesaf o ddata CSEW yn cael ei rhyddhau ym mis Ebrill 2018, gan amcangyfrif nifer y troseddau casineb a gyflawnwyd yng Nghymru a Lloegr rhwng 2015/16 a 2017/18. Disgwylir i'r data hwn ddangos cynnydd yn nifer y troseddau casineb, o ganlyniad i ffactorau fel Brexit.

**Atal**

Mae atal yn fater mwy dieithr. Mae 'casineb' yn amlwg yn gallu llywio'r cyhoedd, polisïau a chyfiawnder troseddol ond mae'n peri problemau'n gysyniadol. Mae ymchwil ar gael i nodi presenoldeb rhagfarn mewn unigolion ond mae'r ymchwil yn wael am nodi'n union beth sy'n troi rhagfarn yn droseddu. Fodd bynnag, pan gaiff digwyddiad ei bostio ar Twitter mae'r sylwadau croes yn drech na'r troseddau casineb. Gwelwyd hyn gyda'r # pin cau a ddefnyddiwyd ar Twitter i roi gwybod am droseddau casineb a dystiwyd gan y cyhoedd ar y stryd.

**Yn ystod y drafodaeth ar ôl cyflwyniad yr Athro Williams, gwnaed y pwyntiau canlynol:**

Mae'r ffordd y bydd pobl yn rhoi gwybod am droseddau casineb wedi newid dros y blynyddoedd.

Mae 'hanner bywyd' yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio effaith digwyddiad fel erchyllter terfysgol, lle ceir cynnydd sydyn ond byrhoedlog mewn troseddu gan ostwng yn raddol yn y dyddiau a'r wythnosau canlynol.

Mae techneg samplu CSEW yn samplu 650 o bobl fesul ardal Heddlu, ac felly prin yw nifer y Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yng Nghymru a gaiff eu cynnwys yn yr arolwg, gan fod y rhan fwyaf o'r bobl sy'n cymryd rhan yn yr arolygon yn wyn.

Bydd rhai pobl yn symud o ragfarn i droseddu.

Bydd rhai pobl yn gwahaniaethu yn erbyn pobl BAME mewn amgylchiadau lle nad yw'r dioddefwyr yn cydnabod bod eu profiad yn drosedd casineb.

Mae diffyg amrywiaeth ar Fyrddau Cyhoeddus ac yn y Llywodraeth o hyd.

**Eitem 3: Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol 2017-2020**
Gohiriodd Ysgrifennydd y Cabinet yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf am fod y cyfarfod yn rhedeg yn hwyr a symudodd at Eitem 4 ar yr agenda.

**Cam gweithredu:** Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfarfod arbennig y Fforwm i drafod yr eitem agenda sy'n ymwneud â chydlyniant cymunedol.

**Eitem 4: Prosiect Ymgysylltu â BAME Cymru Gyfan**
Rocio Cifuentes, Cyfarwyddwr EYST a Ginger Wiegand

Hyd yn hyn, mae EYST wedi cwrdd ag oddeutu 40 o sefydliadau eraill ledled Cymru. Bydd y prosiect yn targedu pobl BAME i gasglu gwybodaeth am eu profiadau o gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru ac i gyflwyno'r dystiolaeth hon i lunwyr polisïau Llywodraeth Cymru. Bydd y prosiect yn defnyddio'r wybodaeth hon i geisio dylanwadu ar bolisïau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Mae EYST yn deall bod gan ranbarthau gwahanol ledled Cymru broblemau a phrofiadau gwahanol. Bydd EYST yn addasu ei ymgysylltiad i gyrraedd pob awdurdod lleol. Bydd y Prosiect yn grwpio cymunedau BAME yn ôl awdurdod lleol. Er bod ymgysylltu â phobl BAME sy'n byw ym Mhowys o bosibl yn fater gwahanol oherwydd yr ardaloedd gwledig mawr yn y sir ac mae heriau penodol i fyw mewn ardaloedd gwledig o'r fath: mynediad at wasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd meddwl ac unigrwydd. Mae pedwar arweinydd cymunedol wedi'u penodi i ddatblygu'r gwaith hwn ledled Cymru.

Bob blwyddyn bydd EYST yn rhoi adroddiad i Lywodraeth Cymru ar gynnydd y Prosiect.

**Yn ystod y drafodaeth ddilynol, codwyd y pwyntiau canlynol:**

Mynegwyd pryderon ynghylch i ba raddau yr ymgysylltwyd â sefydliadau hil yn ystod yr ymgynghoriad ar y Grant Cydraddoldeb. Dangosodd aelodau eu cefnogaeth i EYST o ran cyflawni'r prosiect newydd ond ceisiwyd rhywfaint o sicrwydd ynghylch y dull i'w ddilyn.

A fydd EYST yn dyblygu gwaith sefydliadau eraill?

A fydd sefydliadau hil eraill yn parhau i roi cyngor i Lywodraeth Cymru?

Darllenodd y cynrychiolydd o Grŵp Cydraddoldeb Cymru rai cwestiynau a baratowyd ymlaen llaw ar ran NWREN a oedd yn cynnwys: sut y bydd EYST yn ymgysylltu â chymunedau BAME yng Ngogledd Cymru?; a fydd gwaith NWREN yn cael ei ddyblygu gan EYST?; pa ganllawiau a roddwyd i EYST mewn perthynas â'i ymgysylltiad â'r sector cyhoeddus i esbonio nad yw NWREN yn cael ei ddisodli?

Cadarnhaodd Paul Dear fod swyddogion eisoes wedi cael yr un rhestr o gwestiynau a bod ymateb wedi'i roi'n uniongyrchol i'r Athro Moore, yn NWREN. Dywedodd fod

Llywodraeth Cymru ac EYST yn ceisio cydweithio â'i gilydd, yn seiliedig ar drafodaethau â'r holl sefydliadau sydd â diddordeb mewn materion BAME. Dywedodd, yn benodol, nad bwriad EYST yw dyblygu neu ddisodli gwaith sy'n cael ei wneud gan sefydliadau eraill yn y sector.  Ni fyddai EYST ychwaith yn ceisio rheoli gwaith cyrff annibynnol eraill.  Yn hytrach, y gobaith yw y gall pawb gytuno ar ymagwedd sy'n ategu gwaith ei gilydd.

Diolchodd y Gweinidog i aelodau'r Fforwm am eu safbwyntiau. Dywedodd ei fod wedi gwrando ar y pryderon a fynegwyd ac wedi nodi bod gwahaniaeth pwysig rhwng pryderon ynghylch a ddilynwyd y broses briodol cyn dyfarnu arian a'r ffaith bod rhai pobl yn siomedig ynglŷn â'r canlyniad. Dywedodd y byddai'n fwy na pharod i hwyluso cyfarfod ar wahân i drafod y pryderon a fynegwyd.

**Cam gweithredu:** Yr Ysgrifenyddiaeth i gael trafodaeth ddilynol gydag aelodau'r Fforwm gan roi adborth yn y cyfarfod nesaf.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**
Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei anfon at aelodau yn fuan.